

# Golau'r haul yn erbyn golau'r lleuad

*"... y mae ef hefyd yn gallu achub hyd yr eithaf y rhai sy'n agosáu at Dduw trwyddo ef, gan ei fod yn fyw bob amser i eiriol drostynt." (adn. 25)*

## Beth am ddarllen Hebreaid 7:11–28 ac yna myfyrio

Dechreuodd yr eglwys yn Antiochia gyda'r newyddion da am Iesu Grist. Petai'r Cristnogion yno wedi bod yn amheus ynglŷn â'r neges, yna ni fyddai unrhyw rym, ni fyddai unrhyw bobl wedi dod i gredu, ac, ymhellach, ni fyddai yna genhadaeth fyd-eang. Roedd y neges yn allweddol – "y newyddion da am yr Arglwydd Iesu". Disgrifir crefydd yn aml fel ymchwil dyn am Dduw, ac oherwydd hynny mae yna lawer o grefyddau. Disgrifir y ffydd Gristnogol fel "ymchwil Duw am ddyn". Dyma'r newyddion da; felly, dim ond un Efengyl sydd, ac mae'r Efengyl honno, yn ôl Hebreaid 1:2, yn cael ei llefaru wrthym ni ym Mab Duw.

Deuthum ar draws y gosodiad hwn yn ddiweddar a chredaf ei fod yn crynhoi'r ffydd Gristnogol. Y mae gan Gristnogaeth gredoau, ond nid credo yw. Y mae ganddi athrawiaethau, ond nid athrawiaeth yw. Y mae ganddi seremonïau ac arferion, ond nid arfer a seremoni yw. Y mae ganddi ei sefydliadau, ond nid sefydliad yw. Yn y canol y mae person. Crist yw Cristnogaeth.

Cyn i'r Iesu gael ei eni, daeth angel at Joseff gan ei hysbysu pam ei fod ar ddod: "Yr wyt i roi iddo yr enw 'Iesu' oherwydd bydd yn achub pobl oddi wrth eu pechodau." (Mathew 1:21) Does dim, dim o gwbl, sydd ei angen fwy ar bobl ein cenhedlaeth na chael eu hachub oddi wrth eu pechodau. Ein pechod personol, a'n pechod fel cymdeithas yw'r rheswm dros ein problemau. Yr ydym yn gwastraffu biliynau o eiriau yn ceisio dadansoddi cyflwr dynoliaeth tra gellir ei grynhoi mewn un gair – pechod. Pan fu i'r disgyblion gael eu gwasgaru ar draws y byd yn y ganrif gyntaf, bu iddynt roi eu bys ar angen sylfaenol eu cenhedlaeth. Y mae angen i bob cenhedlaeth glywed y newyddion da am yr Arglwydd Iesu, nid syniadau da amdano. Mae'r naill yn olau haul, a'r llall yn olau lleuad.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Pedr 1:1; 1:11; 2:4–20; 3:2; 3:18; Actau 5:31; 26:18

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Rhag beth y mae Iesu yn ein gwarded?
2. I beth mae Iesu yn ein gwarded?

## Gweddi

O Dad, yr wyf yn diolch i ti eto am anfon dy Fab, fy Ngwardedwr, i mewn i'r byd. Bellach mae fy mynd wedi ei lewyrchu, nid gan olau lleuad, ond â golau'r haul. Bydded pob gogoniant ac anrhydedd i'th enw bendeddig. Amen.